**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

3 Gorffennaf 2025

Annwyl Ken,

**Difrod a chau Porthladd Caergybi oherwydd storm: Adroddiad canfyddiadau cychwynnol**

Rwy'n ysgrifennu i holi am bwynt na chafodd sylw yn ystod dadl y Pwyllgor ddydd Mercher ar ddifrod a chau Porthladd Caergybi oherwydd storm: Adroddiad canfyddiadau cychwynnol. Yn ystod y ddadl, codais y mater o bythefnos o oedi cyn ailagor y Porthladd yn llawn a gofynnais pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Stena Line Ports ynghylch yr oedi ac a ydych yn hyderus y byddant yn bodloni'r terfyn amser diwygiedig? Ni chyfeiriwyd at y cwestiynau hyn yn eich cyfraniad.

Fel y trafodwyd gennym yn y ddadl, mae'r Porthladd yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru. Felly, buaswn yn gwerthfawrogi pe gallech egluro eich safbwynt ac ateb y cwestiynau uchod.

Oherwydd natur amser y cwestiynau, buswn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Gwener 11 Gorffennaf, cyn ailagor y Porthladd yn llawn.

Fe wneuthum gais hefyd i chi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch cwestiwn Hannah Blythyn AS am y Siarter Morwr (Seafarers Charter), y Bil Hawliau Cyflogaeth ac Irish Ferries. Ni wnaethoch ymateb i hyn yn y ddadl, ond rwy'n gobeithio y daw hyn i law y Pwyllgor maes o law.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg